

Bwletin Awdurdod S4C - Mehefin 2002

CYFARFOD AGORED - Wrecsam

Fe gynhaliodd yr Awdurdod Gyfarfod Agored ar nos Fawrth, 27 Mai 2002 yn Wrecsam lle bu rhyw 30 o bobl yn bresennol. Yn ogystal â Nic Parry, Aelod o Awdurdod S4C, bu'r Prif Weithredwr, Huw Jones, a'r Cyfarwyddwr Rhaglenni, Huw Eirug, yn cymryd rhan yn y drafodaeth. Roedd Aelodau eraill yr Awdurdod hefyd yn bresennol i wrando ar y drafodaeth ac i gael sgwrs anffurfiol â'r cyhoedd cyn ac ar ôl y cyfarfod. Ymhlith y materion a drafodwyd oedd:

Y Newyddion

Cyfeiriodd aelod o'r gynulleidfa at y gwasanaeth newyddion am 6.00 pm a 7.30 pm. Teimlwyd bod y bwletin am 6.00 pm yn rhy fyr ac felly roedd yna dueddiad i wyllo'r newyddion Saesneg yr adeg yma er mwyn derbyn newyddion mwy cynhwysfawr. Credwyd y byddai pobl troi'n ôl i wyllo yn y Gymraeg os oedd gwasanaeth estynedig yn cael ei gynnig am 6.00 pm. Hefyd, credwyd bod llawer o bobl yn gwyllo'r teledu peth cyntaf yn y bore a nid oedd S4C yn cynnig unrhyw beth. Holwyd a oedd S4C wedi ystyried hyn, oherwydd roedd yn bwysig i gael gwasanaeth yr adeg hon o'r diwrnod hefyd.

Atebodd Huw Jones taw un o'r pethau roedd S4C yn ceisio'i wneud oedd darparu newyddion ar adeg wahanol i wasanaethau eraill, yn hytrach na chystadlu â'r prif raglenni Saesneg. Roedd cynnig y newyddion mwy cynhwysfawr am 7.30 pm yn cynnig cyfle pan nad oedd neb arall yn darlledu rhaglen newyddion. Yn ogystal, soniwyd bod BBC Cymru (oedd yn darparu'r newyddion ar gyfer S4C) yn defnyddio'r un adnoddau stiwdio ac ati ar gyfer ei ddarllediad newyddion yn y Saesneg ac ar gyfer y gwasanaeth Cymraeg ar gyfer S4C. Felly, roedd yna ffactorau ymarferol yn effeithio ar amser darlledu'r newyddion hefyd. Mor belled ag oedd y pwynt parthed darlledu yn y bore yn y cwestiwn, byddai hyn wrth gwrs yn golygu costau ychwanegol a byddai'n rhaid symud yr arian o rywle arall – fel yr oedd pethau'n sefyll nid oedd gan S4C yr arian i wneud hyn.

Pwysleisiwyd hefyd ei bod hi'n bwysig bod y newyddion yn adlewyrchu newyddion rhyngwladol, nid newyddion am Gymru yn unig. Tra roedd yn bwysig i gael pwyslais Cymreig, dylid hefyd gael newyddion am weddill y byd yn y Gymraeg. Er hynny, roedd yna deimlad yn y gynulleidfa bod gormod o sylw yn cael ei roi i newyddion y de (yn enwedig y Cynulliad) ac nid oedd digwyddiadau yn ardal Wrecsam yn cael sylw. Teimlwyd nad oedd yr ardal Wrecsam yn cael chwarae teg.

Soniodd Huw Eirug fod hwn yn gwyn a glywyd ymhob cyfarfod agored roedd S4C yn ei gynnal. Byddai'r adborth hwn yn cael ei fwydo nôl i'r BBC. Soniwyd bod S4C eleni wedi cyflwyno rhaglen newydd *Wedi 6* a bwriad y rhaglen hon oedd i adrodd ar straeon a newyddion gwahanol ardaloedd o Gymru ac yr oedd y cwmni cynhyrchu yn gweithio'n agos gyda phapurau lleol er mwyn sicrhau bod hyn yn digwydd.

Holwyd a oedd yn well gan wylwyr gael clywed pobl fel Tony Blair/George Bush yn y Saesneg, neu a fyddai'n well ganddynt fod yr hyn oedd ganddynt i'w ddweud yn cael ei droslaisio neu isdeitlo. Atebodd pobl yn y gynulleidfa bod yn well ganddynt glywed pobl fel hyn yn defnyddio yn eu geiriau/lleisiau eu hunain heb droslais/is-deitlo.

Pobol y Cwm

Canmolwyd S4C ar safon y dramâu yr oedd wedi eu darlledu yn ddiweddar. Er hynny, mynegwyd cryn anffodlonrwydd ynglyn â safonau ar *Pobol y Cwm*. Holwyd, os oedd y cynhyrchwyr yn ei chael hi'n anodd i'w chynnal pob diwrnod yr wythnos onid fyddai'n well i'w darlledu rhyw dwywaith yr wythnos. Yr oedd yna safon i raglenni megis *Tipyn o Stâd* a *Pen Tennyn* ond teimlwyd bod *Pobol y Cwm* wedi colli'i ffordd.

Nodwyd y pwynt ond soniwyd taw'r trafferth gyda sebon opera oedd bod yn rhaid eu darlledu'n gyson neu fe fyddai pobl yn troi at raglenni megis *Emmerdale* a ddim troi'n ôl. Roedd S4C wedi bod yn trafod y rhaglen gyda'r BBC. Roedd cynhyrchydd newydd wedi'i hapwyntio ond ni fyddai'r newidiadau oedd yn cael eu trafod ar hyn o bryd yn cyrraedd y sgrîn tan fis Medi. Roedd rhaid cydnabod nad oedd pobl yn gwyllo'r rhaglen fel y buont yn y gorffennol ac roedd hyn yn destun pryder i S4C.

Holwyd beth oedd aelodau'r gynulleidfa yn credu oedd o le ar y sebon opera. Atebwyd bod y storïau a'r cymeriadau wedi bod yn newid cymaint nid oedd yn bosibl i gredu ynddynt rhagor. Credwyd nad oedd y gyfres yn cynnal stori am gyfnod digon hir. I gymharu a *Coronation Street* roedd y storïau yn hon yn datblygu ac wedyn yn diflannu o fewn ychydig wythnosau. Hefyd, teimlwyd nad oedd yr actio yn *Pobol y Cwm* yn cymharu'n dda. Cydnabuodd rhai aelodau o'r gynulleidfa nad oeddynt yn gwyllo'r sebon opera rhagor. Soniodd eraill eu bod wastad wedi gwyllo *Pobol y Cwm* a byddent yn dal i wneud hynny – serch hyn, roeddynt hwythau hefyd o'r farn nad oedd y storïau yn datblygu fel y dylent. Tra roeddynt yn dal i fwynhau, nid oedd y sebon opera mor dda ag yr oedd wedi bod yn y gorffennol. Gwnaethpwyd y pwynt hefyd mai hen bobl oedd cymeriadau *Pobol y Cwm* blynyddoedd yn ôl. Roedd yn amlwg bod ymgais wedi'i wneud i newid hyn, ond efallai bod y cynhyrchwyr wedi mynd yn rhy bell. Nawr roedd y cymeriadau bron i gyd yn ifanc a hynny'n golygu actorion dibrofiad.

Ffigurau Gwyllo

Cyfeiriwyd at y ffaith bod *Y Cymro* wedi bod yn cyhoeddi ffigurau gwyllo S4C yn y gorffennol ac roedd wedi bod yn ddiddorol i weld y rhain. Nodwyd nad oedd ffigurau wedi ymddangos yn y papur yn ddiweddar. Roedd yna sibrydion wedi bod fod hyn oherwydd ffigurau gwyllo gwael iawn a dyna paham nad oeddynt wedi'u cyhoeddi. Roedd yr un sibrydion o gwmpas am *Pobol y Cwm* hefyd. Holwyd pam nad oedd *Y Cymro* yn cyhoeddi'r ffigurau hyn bellach. Esboniwyd mai cwmni BARB oedd yn gyfrifol am fesur a darparu ffigurau gwyllo a bod y panel roeddynt yn defnyddio wedi newid yn gyfangwbl yn ôl ym mis Ionawr. Hyd yn hyn nid oedd gan S4C ffydd yn y ffigurau newydd ac yr oedd yr oedd yr hyn oedd yn dod trwodd yn achosi penbleth i'r Sianel. Pe bai'r Sianel yn credu'r ffigurau hyn, byddai'n rhaid iddi gredu bod ei ffigurau gwyllo wedi haneri dros nos. Roedd S4C felly wedi bod mewn trafodaethau gyda'r cwmnïau oedd yn darparu'r gwybodaeth ar wyllo. Unwaith y byddai S4C yn hapus bod y ffigurau oedd yn cael eu darparu yn rhai dilys, fe fyddai'n eu cyhoeddi nhw. Roedd y ffigurau hyn yn bwysig i S4C gan bod eu hangen nhw i drafod gyda'r cwmnïau cynhyrchu oedd yn cyflenwi rhaglenni S4C. Gobeithiwyd yn fawr y byddai'r sefyllfa'n cael ei datrys cyn hir.

Gwyllo gan Bobl Ifanc

Holwyd pobl ifanc y gynulleidfa ynglyn â'r hyn yr oeddynt hwy yn gwyllo ar S4C. Atebwyd bod *Rownd a Rownd*, *Tipyn o Stâd* a *Pen Tennyn* yn rhoi mwynhad. Hefyd y rhaglenni cerddoriaeth ar brynhawn Sul – er credwyd bod yr amser darlledu'n anghywir a byddai'n well iddynt gael eu dangos gyda'r nos. Croesawyd rhaglenni *Tabw* am fod mor agored ar y pwnc rhyw, a hefyd roedd *Procar Poeth* yn dda gan ei fod yn adlewyrchu'r hyn yr oedd rhai pobl ifanc yn ei wneud – roedd y rhaglen yn adlewyrchiad teg. Er hynny, teimlwyd nad oedd digon yn cael ei gynig i bobl yn eu hargeiniau a thridegau cynnar.

Teledu Digidol

Holwyd faint o'r gynulleidfa oedd â theledu digidol. Gwelwyd bod yna tua hanner o'r gynulleidfa yn gallu derbyn digidol a gofynnwyd iddynt beth oeddynt yn mwynhau arno. Atebwyd bod *Pnawn Da* yn cael ei fwynhau ond eto roedd popeth yn dod o Lanelli a gofynnwyd onid oedd yn bosibl i gael ambell ddiwrnod yn dod o'r Gogledd. Cydnabuwyd bod hyn yn bwynt teg. Ar ôl dweud hynny, tra roedd y rhaglen yn dod o stiwdio yn Llanelli roedd cynnwys y rhaglen i fod i adlewyrchu ardaloedd eraill o Gymru.

Rhaglenni Drama

Holwyd os oedd pobl y de yn cwyno ynglyn â'r holl gyfresi diweddar, fel *Pen Tennyn*, oedd wedi'i lleoli yn y Gogledd. Atebwyd bod hyn wedi bod yn fater o gwyn. Crybwyllwyd hefyd mai un o'r problemau oedd bod yr acenion yn y cyfresi hyn yn hynod ogleddol ac yn ei gwneud hi'n anodd i bobl y de eu deall. Soniwyd, er hynny, mai prawf rhaglenni ardderchog oedd eu bod yn apelio at bawb mai nôd S4C oedd i barhau i greu rhaglenni ar gyfer Cymru gyfan.

Nia

Holwyd os byddai cyfres arall o *Nia* yn ymddangos. Atebodd Huw Eirug y byddai yna raglen arbennig o *Nia* dros y Nadolig ac yna gyfres newydd yn ymddangos yn fuan ar ôl hynny y flwyddyn nesaf. Roedd S4C wedi derbyn ymateb da yn gyffredinol i'r gyfres hon. Croesawyd y newyddion ond soniwyd ei bod hi'n drueni nad oedd fwy o raglenni o fewn cyfres, roedd y gyfres diwethaf yn rhy fyr. Roedd yna ddigon o dalent yng Nghymru ac roedd yn dda i ddysgu amdanynt. Holwyd os oedd darlledu'r gyfres hon ar nos Sadwrn yn plesio, neu a fyddai'n well gan bobl pe bai'n cael eu darlledu ar noson arall. A fyddai nos Sul yn noson well i'w dangos, er enghraifft? Consensws y gynulleidfa oedd mai nos Sadwrn oedd y ffeffryn o'u safbwynt nhw.

Rhaglenni Chwaraeon/Cerddoriaeth

Cyfeiriodd aelod o'r gynulleidfa at ei foddhad wrth weld bod S4C wedi derbyn gwobr ar gyfer *Y Clwb Rygbi*. Er hynny, nid oedd ef yn bersonol â diddordeb yn rygbi a thybiodd bod digon o bobl yn debyg iddo. Credwyd bod yna ganfyddiad bod pawb yn gwirioni ar rygbi pan nad oedd hynny'n wir. Er hynny, soniodd aelod arall o'r gynulleidfa bod rygbi yn rhywbeth oedd yn denu pobl di-Gymraeg i wyllo'r Sianel. Yn wir, erbyn hyn nid oeddynt yn cwyno am y sylwebaeth Gymraeg ac roedd y gemau rygbi a ddarlledir ar S4C yn ychwanegu at eu Cymreictod ac wedi hefyd cael effaith ar eu cydymdeimlad â'r iaith Gymraeg a'r ffaith bod Cymru yn wlad ddwyieithog. Tra roedd eraill yn y gynulleidfa heb unrhyw beth yn erbyn

rygbi fel y cyfryw, roedd yna ddymuniad ganddynt fod yna fwy o gydbwysedd gyda darlledu pêl droed. Holwyd hefyd pam yr oedd S4C wedi rhoi'r gorau i ddarlledu'r Tour de France.

Soniwyd hefyd bod gan lawer o bobl ddiddordeb mewn ceir ac awgrymwyd y dylid rhoi mwy o sylw i hyn. Teimlwyd y dylid adlewyrchu ffaith bod Cymru'n le ar gyfer 'motor sport' – er enghraifft roedd tipyn o hyn yn digwydd ym Mhenbre a Sir Fôn, ac ymhlith fforestydd y wlad.

Atebwyd bod chwaraeon yn bwnc diddorol, gan fod S4C ond yn gallu darlledu'r hyn yr oedd ganddi'r hawliau iddyn nhw. Un cwestiwn, er enghraifft, oedd a oedd y Sianel yn dangos digon o bêl-droed Cynghrair Cymru. Er hynny, roedd rhaid cydnabod bod y rygbi yn rhoi ffigurau gwylio da i S4C. Yr oedd y Sianel bob amser yn edrych i weld pa raglenni gwahanol y gallai darlledu. Mor belled ag oedd y Tour de France yn y cwestiwn, roedd S4C yn ymwybodol bod Channel 4 wedi bod yn ailystyried ei blaenoriaethau ac efallai nad oedd hyn bellach yn eu plith.

Awgrymwyd y dylai'r Sianel ddangos fwy o gyngherddau a chorau, ac ati. Dylid hefyd darlledu nosweithiau ffermwyr ifanc. Cydnabuwyd efallai roedd hyn yn syniad hen ffasiwn ond awgrymwyd bod modd ei wneud mewn ffordd newydd wedd a chredwyd bod yna siwr o fod ffordd i gyflwyno adloniad fyddai'n weddus i ddenu pobl ifanc i wyllo. Ategwyd y syniad gan aelod arall o'r gynulleidfa a oedd a diddordeb mewn cerddoriaeth draddodiadol a chanu gwerin. Credwyd bod yna ddiffyg adlewyrchiad o gerddoriaeth draddodiadol a hefyd roedd angen fwy o raglenni wedi'u targedu at bobl ifanc yn eu harddegau. Roedd yna nifer o blant o deuluoedd di-Gymraeg ac roedd angen rhywbeth fel *Newsround* i gadw eu diddordeb. Y rhain oedd y bobl y dylid anelu atynt gan mai nhw oedd y genhedlaeth nesaf.

Atebodd Huw Eirug a Huw Jones trwy sôn bod S4C wedi cynnig cyfres canu gwerin ar nos Lun. Roedd y Sianel hefyd yn edrych tuag at gynnig rhaglenni cerddoriaeth mwy cyfansawdd yn y dyfodol, rhaglenni ar ffurf rhaglen Jools Holland, lle'r oedd yna amrywiaeth o ddulliau cerddorol o fewn yr un rhaglen. Cyfeiriwyd hefyd at y rhaglenni *4 Trac*, *Y Sesiwn Hwyr* – er cydnabuwyd nad oedd y rhain yn rhaglenni oedd yn adlewyrchu canu gwerin. O ran rhaglen fel *Newsround*, awgrymwyd bod *Ffeil* yn rhaglen fyddai'n cyfateb i hwn.

Teledu o Loegr

Lleisiodd aelod o'r gynulleidfa bryder at y ffaith bod cynifer yn troi ei erialau tuag at Loegr. Roedd hyn yn golygu nid yn unig nad oeddynt yn gwylio rhaglenni Cymraeg, roedd hefyd yn golygu nad oeddynt yn gwylio teledu Cymreig yn y Saesneg. Yn ogystal roedd rhai yn cael problemau i dderbyn S4C ac os nad oedd ganddynt wasanaeth ddigidol, nid oeddynt yn derbyn S4C. Awgrymwyd nid oedd plant yn gwylio S4C felly oherwydd nad oeddynt yn gwybod bod y rhaglenni hyn yn bodoli. Cytunwyd bod y sialens o gyrraedd pobl gyda'r neges o beth oedd ar gael yn anferthol, yn enwedig felly gyda phobl ifanc lle'r oedd gofyn gweithio gyda nhw drosodd a throsodd. Roedd S4C yn sylweddoli bod yn rhaid dod o hyd i ffyrdd i weithio gydag eraill i sicrhau bod ei buddsoddiad yn ymestyn mor bell â phosibl.

Holwyd os oedd S4C yn gweithio gyda sianelau eraill er mwyn denu sylw i'r Sianel. Dywedwyd bod yna gydweithrediad gyda Radio Cymru lle'r oedd ymgais i gael sylw i raglenni S4C. Byddai'n rhaid i S4C dalu am unrhyw ymgyrch ar HTV. Ar y pwynt a wnaethpwyd am dderbyniad ar y ffin, soniwyd weithiau roedd gan bobl dewis o ddau gyfeiriad a'u bod nhw ddim yn sylweddoli hynny. Roedd y broblem yma'n debygol o fod yn waith pan byddai digidol yn ehangu. Nid oedd hi'n fater syml i'r darlledwyr yng Nghymru i gael pobl i droi i ffwrdd o Granada/BBC Lloegr/Channel 4 ac ati i wyllo teledu Cymreig/Cymraeg. Os oedd gan aelodau o'r gynulleidfa syniadau, fe fyddai S4C yn croesawu eu clywed.

Soniwyd fod S4C hefyd yn dioddef o sefyllfa'r 'listings' yn y papurau newydd, lle gan amlaf roedd rhaglenni S4C yn ymddangos o dan yr adran yn rhestru gwahaniaethau rhanbarthol. Roedd y mwyafrif o'r gynulleidfa yn cael gwybodaeth am deledu o'r Daily Post.

Yr Eisteddfod

Holwyd a fyddai'r bobl nad oedd yn gallu derbyn digidol yn mynd i golli allan o ran darllediadau o'r Eisteddfod. Atebwyd bod yn rhaid i S4C wneud y sianel ddigidol yn ddeniadol neu ffordd arall ni fyddai pobl yn mynd i fynd allan i'w gael. Roedd yn wir y byddai pobl â digidol yn gallu gweld mwy o'r Eisteddfod, ond wedi dweud hynny yr oedd S4C yn parhau i ddarlledu yr un nifer o oriau o'r wyl ar y sianel analog ag yr oedd wedi gwneud yn y gorffennol. Roedd S4C wedi clywed sylwadau tebyg o'r blaen ond teimlwyd bod hyn i raddau yn adlewyrchu'r ffaith bod yna wasanaeth estynedig ar ddigidol.

CYFARFOD BUSNES – WRECSAM – 28 MAI 2002

Ar ddechrau'r cyfarfod cyfeiriodd Janet Lewis-Jones at y ffaith bod Cadeirydd S4C wedi mynd i mewn i'r ysbyty ar gyfer triniaeth y diwrnod hwnnw. Roedd y Cadeirydd ym meddyliau pawb a chytunodd yr Aelodau i gyfrannu at dusw o flodau i ddymuno'n dda iddi ar gyfer gwellhad buan a llwyr.

BBC – Adroddwyd nad oedd wedi bod yn bosibl i drefnu'r cyfarfod blynyddol rhwng Awdurdod S4C a Chyngor Darlledu Cymru cyn yr haf. Felly, byddai'n rhaid edrych i weld beth ellir ei drefnu yn yr hydref.

Llythyr at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon – Roedd llythyr wedi'i yrru at yr Ysgrifennydd Gwladol yn tynnu sylw at y goblygiadau i S4C yn dilyn sefyllfa ITV Digital a'i effaith ar SDN. Roedd hyn ond yn tanlinellu pwysigrwydd cais S4C am arian ychwanegol. Cylchredwyd o gwmpas y bwrdd gopi o'r llythyr a yrrwyd at yr Ysgrifennydd Gwladol.

Swyddogion DCMS - 14/15 Mai

- (a) Adroddwyd ar gyfarfod a gynhaliwyd yng nghanolfan y BBC yng Nghaerdydd ar 14 Mai. Roedd Andrew Ramsay, un o uwch swyddogion y DCMS, wedi'i wahodd yno i drafod y Ddeddf Gyfathrebu newydd. Yn bresennol hefyd bu Jenny Randerson, Gweinidog y Cynulliad oedd yn gyfrifol am ddarlledu ac, yn ogystal, cynrychiolwyr o HTV a'r ITC. Amlinellodd Mr Ramsay yn fras prif bwyntiau'r Ddeddf newydd ac wedi hynny cafwyd trafodaeth agored yn ymwneud â gwahanol agweddau o'r Mesur a'r effaith yr oedd yn debyg o gael ar Gymru.

- (b) Adroddwyd hefyd bod Diana Kahn, pennaeth Adran Darlledu'r DCMS, wedi rhoi sesiwn briffio i'r Cynulliad ar y Mesur y diwrnod canlynol a chafwyd trafodaeth gyffredinol yn dilyn hynny. Profodd hyn i fod yn sesiwn defnyddiol.

Pwyllgor Archwilio y Llywodraeth ar y Mesur Cyfathrebu – Adroddwyd bod Pwyllgor Archwilio wedi'i sefydlu i ystyried y Mesur Cyfathrebu. Roedd S4C wedi derbyn gwahoddiad i roi tystiolaeth ysgrifenedig erbyn 10 Mehefin. Byddai S4C hefyd yn rhan o grwp o ddarlledwyr oedd yn ymddangos o flaen y Pwyllgor ar 17 Mehefin i drafod materion technegol fel sbectrw. Roedd y prif ddarlledwyr, gan gynnwys S4C, hefyd wedi cael gwahoddiad i ymddangos o flaen y Pwyllgor ar 20 Mehefin ar gyfer sesiwn o ryw hanner awr yr un. Felly, roedd angen trafod ymateb S4C i'r Pwyllgor hynny a'r dystiolaeth roedd am gyflwyno. Cafodd hyn ei drafod mewn mwy o fanylder nes ymlaen ar agenda'r cyfarfod hwn – gweler isod. Ar yr un pryd yr oedd y DCMS hefyd yn ymgynghori ar gynnwys y Mesur.

Cinio Seneddol – Adroddwyd ar gyfarfod seneddol a gynhaliwyd ar 15 Mai. Manteisiwyd ar y cyfle i esbonio beth oedd S4C i'r rheiny nad oeddynt yn gyfarwydd â gweithgareddau'r Sianel cyn mynd ymlaen i drafod elfennau penodol o'r Mesur Cyfathrebu a chais S4C am arian ychwanegol. Dilynodd drafodaeth fywiog ac erbyn y diwedd derbyniodd nifer o'r Aelodau Seneddol ddadl S4C am chwarae teg.

Derbyniad yng Nghynhadledd y Blaid Geidwadol – Adroddwyd bod y derbyniad a gynhaliwyd yng nghynhadledd y Blaid Geidwadol wedi bod yn un llwyddiannus

Derbyniad yn y Senedd – 18 Mai – Tynnwyd sylw'r Aelodau at dderbyniad roedd S4C yn ei gynnal yn y Senedd ar 18 Mai.

Seminarau gyda Chyflenwyr Rhaglenni – Adroddwyd ar y tri seminar a gynhaliwyd yr wythnos gynt gyda chynhyrchwyr. Cafwyd presenoldeb da yn y tri gyda rhyw 100 yn bresennol yng Nghaerdydd, 50 yng Nghaerfyrddin a 70 yng Nghaernarfon. Credwyd ei bod hi'n angenrheidiol i gynnal y seminarau hyn fel rhan o'r paratoi ar gyfer y rown gomisiynu nesaf gan eu bod yn atgyfnerthu'r negeseuon roedd S4C eisiau eu cyfleu am ei disgwyliadau ac anghenion.

Y Mesur Cyfathrebu Drafft

Ystyriodd yr Awdurdod bapur oedd wedi'i yrru at y Cynulliad yn sgil ei gais am dystiolaeth ar gyfer trafodaeth roedd y Pwyllgor Diwylliant yn ei gael ar 29 Mai. Yn ogystal, amlinellodd yr Ysgrifennydd rhai o'r pwyntiau ychwanegol awgrymodd y dylid cynnwys yn yr ymateb i'r Senedd. Wrth ystyried y papur, codwyd nifer o bwyntiau:

- Roedd y Mesur ar hyn o bryd yn sôn am adolygiad gan yr Ysgrifennydd Gwladol pob pum mlynedd, tra y drefn ar gyfer y BBC oedd bod adolygiad o'u Siarter pob deng mlynedd. Gan fod y Mesur yn trin S4C a'r BBC ar sail cydraddoldeb, awgrymwyd dylai S4C gael ei hadolygiad hi pob deng mlynedd hefyd.

- Roedd y Mesur yn cydnabod cyfrifoldebau Awdurdod S4C, ond nid oedd yn cefnogi hynny gyda'r arian oedd angen i'w cyflawni. Ar yr un pryd roedd yn bwysig i beidio symud i ffwrdd o'r egwyddor bod y fformiwla yn cael ei ddiffinio mewn statud gan fod hynny'n tanlinellu'r annibyniaeth y Sianel. Yr hyn y dylid pwysu amdano felly oedd broses o adolygiad o'r 'baseline' nad oedd ar gael yn y fformiwla bresennol.
- Roedd llawer o'r hyn y byddai OFCOM yn ei wneud ddim yn effeithio ar S4C. Dylid diogelu felly bod y geiriad yn y Mesur yn sicrhau na fyddai S4C yn cyfrannu tuag at yr elfennau hynny o gostau OFCOM oedd yn amherthnasol i weithgareddau'r Sianel.
- O ran rôl OFCOM, tra dylid croesawu'r hyn a ddywedwyd am hunan-reoleiddio, roedd y ffaith y gallai rhywun fynd yn syth at OFCOM gyda chwyn cyn dod at S4C yn rhedeg yn groes i'r egwyddor hyn. Ni chredwyd ei bod hi'n afresymol i bobl gwyno yn y lle cyntaf i ddarllledwyr er mwyn cael eu hymateb nhw. Fe allai OFCOM wedyn sefyll tu ôl i'r broses hon.

Nawdd

Ystyriwyd cais gan Coleg Digidol Cymru am nawdd ar gyfer un categori yng Ngwobrau Blynyddol y Coleg fyddai'n cael ei gynnal ym mis Gorffennaf. Cytunwyd gydag argymhelliad y dylid noddi'r categori 'Anghenion Arbennig' gan gynnig gwobr o £500.

Cydymffurfiaeth

Ystyriwyd adroddiad y Grwp Cydymffurfiaeth yn deillio o'i gyfarfod ar 12 Ebrill 2002 (gohiriodd yr Awdurdod yr adroddiad hwn yn ei gyfarfod diwethaf). Yn benodol, gofynnodd y Grwp i'r Awdurdod ystyried golygfa yn ystod rhifyn *Porc Peis Bach* a ddarllledwyd ar 26 Chwefror 2002, lle wnaeth Kenneth regi ar ei fam. Adroddodd y Cyfarwyddwr Rhaglenni ar lafar sylwadau'r Comisiynydd a'r awdur ar yr olygfa. Y bwriad tu ôl iddi oedd dangos plentyn wedi'i siomi a'i gythruddo, a dyma oedd y peth cryfaf yn ei feddwl ef y gallai ddweud mewn ymateb i agwedd ei fam

Cytunwyd: Bod yr olygfa a'r geiriau a ddefnyddiwyd allan o gymeriad, yn rhai na ddylid wedi'u defnyddio, ac yn anaddas i'r sefyllfa. Fe ddylai'r Cyfarwyddwr Rhaglenni felly gyfleu dyfarniad a sylwadau'r Awdurdod i'r Comisiynydd ac i'r cwmni cynhyrchu.

Ystyriwyd adroddiad y Grwp Cydymffurfiaeth yn deillio o'i gyfarfod ar 10 Mai 2002. Yn benodol, gofynnwyd i'r Awdurdod ystyried golygfeydd yn codi cwestiynau ynglyn ag iaith gref a defnydd o'r Saesneg.

Cytunwyd: Gan gymryd i ystyriaeth amser darlledu'r gyfres a'i chyd-destun, nid oedd yr iaith gref na'r defnydd o'r Saesneg yn y golygfeydd dan sylw yn torri'r canllawiau cydymffurfiaeth.

Ar ddiwedd y drafodaeth hon, cyfeiriwyd at ddyfarniad y Comisiwn Safonau Darlledu parthed *Taro Naw* a ddarlledwyd ar 14 Mai 2001. Roedd y rhaglen hon yn ymwneud â honiadau bod cig tramor yn cael ei werthu fel cig Cymreig. Roedd y Comisiwn wedi derbyn cwyn gan sawl cwmni cig oedd yn honni eu bod wedi'u trin yn annheg yn y rhaglen. Roedd y Comisiwn wedi derbyn y gwyn yn rhannol ac roedd gofyn i S4C felly gyhoeddi ymddiheuriad ar y sgrîn. Nododd yr Awdurdod er mai'r BBC oedd wedi cynhyrchu'r rhaglen hon bod y Cyngor Safonau Darlledu yn cymryd y safbwynt mai S4C, fel y darlledwr, oedd yn gyfrifol.

Materion Eraill

Yn ogystal, trafodwyd neu nodwyd yr adroddiadau canlynol:

- Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Archwilio – 26 Ebrill 2002
- Adroddiad y Prif Weithredwr – Materion er gwybodaeth
- Adroddiad Cwynion
- Chofnodion cyfarfod y Grwp Cydymffurfiaeth a gynhaliwyd ar 10 Mai 2002
- Adroddiad y Wifren Gwylwyr.
- Adroddiad Rheolwr Gyfarwyddwr S4C Masnachol.
- Adroddiad ar y Gwasanaeth Rhaglenni
- Adroddiad Ariannol